COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O'R FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O'R FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

3. CWMPAS A PHWRPAS YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

9. CYDNABYDDIAETH

10. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

FSC

BUDDSODDWYR MEWN POBL

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â'ch Cyfarwyddyd i ni dyddiedig 31 Mawrth 2008 (Atodiad 1).

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Cynigiwn:

- fod y ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau yn ardal Bournville yn cael ei hailalinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3;
- bod Cymuned Beaufort yn cael ei diddymu a thair Cymuned newydd yn cael eu creu, sef Badminton, Beaufort a Rassau, i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 4;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr yn ardal Twyncynghordy Road yn cael ei hailalinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 7;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael ei hailalinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 8;
- bod Cymuned Glynebwy yn cael ei diddymu a bod dwy Gymuned newydd yn cael eu creu, sef Gogledd Glynebwy a De Glynebwy, i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 9; a
- bod y ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy (De Glynebwy) yn cael ei hailalinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 11.

3. CWMPAS A PHWRPAS YR AROLWG

3.1 Pwrpas yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Cynhelir yr arolwg yn unol â darpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

Gweithdrefn

3.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ysgrifenasom ar 1 Mai 2008 at bob Cyngor Cymuned a Thref ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, Aelod y Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Fe wnaethom ni hefyd gyhoeddi ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am

gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (4 Gorffennaf 2008) ar wefan y Comisiwn a gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Mewn ymateb i'n gwahoddiad gwreiddiol, derbyniasom gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, Cyngor Tref Bryn-mawr a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau. Yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 5 Mawrth 2009, ystyriasom y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau.

4.2 Gwnaethpwyd awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol yn yr ardaloedd canlynol: Abertyleri a Llanhiledd, Nant-y-glo a'r Blaenau, Beaufort, Bryn-mawr a Glynebwy.

Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.3 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft nodasom awgrymiadau Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau ynghylch newid i'r ffin yn ardal anheddiad Bournville. Ystyriasom y ddau awgrym a nodasom fod rhan fwyaf anheddiad Bournville yng Nghymuned Abertyleri a'i bod yn ymddangos i ni ei bod â chysylltiadau agosach a'r gymuned honno nag â Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Ystyriasom y byddai'n briodol adlinio'r ffin i ddilyn afon Ebbw Fach a chynnwys anheddiad Bournville i gyd yn ward Cwmtyleri o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd. Cynigiasom felly newid y ffin rhwng y ddwy gymuned.

Beaufort a Bryn-mawr

4.4 Ystyriasom gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i newid y ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr yn ardal Twyncynghordy Road er mwyn mynd i'r afael ag anomaledd yn y ffin yn ymwneud ag un eiddo preswyl newydd ei adeiladu. Yn dilyn ymweliad safle, nodasom ei bod yn ymddangos mai'r unig fynediad i'r eiddo hwn oedd drwy Gymuned Beaufort oherwydd bod gât dan glo yn rhwystro mynediad o Fryn-mawr ar hyd Twyncynghordy Road. Ystyriasom felly mai priodol fyddai i ailalinio'r ffin gan symud yr eiddo o Fryn-mawr i Beaufort (map yn Atodiad 7).

Beaufort

4.5 Nodasom fod Gymuned Beaufort heb ei rhannu'n wardiau ond bod iddi hanes hir o gael ei rhannu'n dair adran etholiadol llywodraeth leol, sef Badminton, Beaufort a Rassau. Gan nad oes gan Gymuned Beaufort Gyngor Cymuned, ni fyddai modd, fel rhan o unrhyw arolwg o drefniadau etholiadol cymuned i greu Wardiau Cymuned Badminton, Beaufort a Rassau i fod yn gydffiniol ag adrannau etholiadol llywodraeth leol. Byddai gweithredu'n llym y rheolau sy'n llywodraethu arolygon etholiadol prif ardaloedd yn y dyfodol yn golygu mai'r unig ddewis i'r ardal fyddai creu adran etholiadol aml-aelod fawr yn cynnwys holl Gymuned Beaufort. Er mwyn caniatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn ystod yr arolwg nesaf o drefniadau etholiadol ar gyfer Blaenau Gwent, cynigiwn fod Cymuned bresennol Beaufort yn cael ei rhannu'n dair cymuned newydd, sef Badminton, Beaufort a Rassau (map yn Atodiad 4). Ystyriasom, gan amlaf, y byddai ffiniau'r adran etholiadol bresennol yn briodol ar gyfer ffiniau cymunedol. Gwnaethom gynnig, fodd bynnag, rhai

newidiadau i'r ffiniau er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn nodweddion daearyddol sydd wedi'u diffinio'n glir.

Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.6 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, nodasom awgrymiadau Cyngor Tref Bryn-mawr a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau ynghylch newid y ffin yn Ward De Bryn-mawr, Cymuned Bryn-mawr ac yn Ward Nant-y-glo o Gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau.

4.7 Awgrymodd Cyngor Tref Bryn-mawr newid i'r ffin er mwyn cynnwys nifer mawr o eiddo preswyl yn eu cymuned. Nodasom, fodd bynnag, mai'r unig fynediad i'r eiddo hyn oedd drwy Nant-y-glo a'r Blaenau ac ymddangosai hyn i ni fod yr eiddo wedi'u cynnwys yn briodol yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau.

4.8 Gwnaeth Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau awgrym a fyddai'n golygu symud ardal lai o Nant-y-glo a'r Blaenau i Fryn-mawr a chynnwys Ystad Ddiwydiannol Blaenant, Ysgol Gynradd Bryn-mawr a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Nodasom, fodd bynnag, y byddai'r ailaliniad arfaethedig hwn yn symud Ysgol Gynradd Bryn-mawr a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr o ardal Bryn-mawr.

4.9 Ystyriasom, oherwydd datblygiadau sydd wedi digwydd yn yr ardal hon ers diffinio'r ffin gymunedol bresennol, nad yw'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau bellach wedi'i diffinio'n glir mewn rhai mannau. Roeddem o'r farn ei bod yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus i wneud newidiadau i'r ffin gymunedol er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn nodweddion daearyddol sydd wedi'u diffinio'n glir. Ystyriasom y ddau awgrym a chynigiasom y byddai'n fwy priodol i ailalinio'r ffin gan ddefnyddio ffurf ddiwygiedig o awgrym Nant-y-glo a'r Blaenau i ailalinio'r ffin gymunedol i'r de o Ysgol Gynradd Bryn-mawr gan gadw Ysgol Gynradd Bryn-mawr a Chanolfan Iechyd Bryn-mawr yn ardal Bryn-mawr (map yn Atodiad 8). Ni fyddai'r cynnig hwn yn golygu trosglwyddo unrhyw etholwyr.

Cwm a Glynebwy

4.10 Nodasom gynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy gan fod y ffin bresennol yn amlwg yn rhannu amryw eiddo mewn ystâd sefydledig. Ar ôl ymweliad safle i wirio hyfywedd newid arfaethedig y Cyngor i'r ffin, cynigiasom y byddai'n briodol i ailalinio'r ffin i ddilyn y ffordd gyfagos o amgylch Cymuned Cwm i gynnwys yr eiddo hynny sydd ar hyn o bryd yng Nghymuned Glynebwy yng Nghymuned Cwm. Nodasom, fodd bynnag, y byddai hyn yn golygu bod rhai eiddo yn Hall Street sydd â'i hunig fynediad o ardal Gymuned Cwm yn parhau yng Nglynebwy o hyd. Gwnaethom groesawu sylwadau pellach am yr ardal hon cyn i ni ystyried ein Cynigion Terfynol.

Glynebwy

4.11 Nodasom fod Cymuned Glynebwy, sydd heb ei rhannu'n wardiau, ag iddi hanes hir o gael ei rhannu'n ddwy adran etholiadol llywodraeth leol, sef Gogledd Glynebwy a De Glynebwy. Gan nad oes gan Gymuned Glynebwy gyngor cymuned ni fyddai modd creu wardiau cymuned i fod yn gydffiniol ag adrannau etholiadol llywodraeth leol. Yn yr un modd â Chendl (gweler 4.5), er mwyn caniatáu cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd yn ystod yr arolwg nesaf o drefniadau etholiadol ar

gyfer Blaenau Gwent, cynigiwn ddiddymu Cymuned bresennol Glynebwy a chreu dwy gymuned newydd o Gymuned bresennol Glynebwy, sef Cymunedau Gogledd Glynebwy a De Glynebwy (map yn Atodiad 9).

Tredegar

4.12 Nodwyd gennym y newidiadau i'r ffiniau wardiau a awgrymwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng Nghymuned Tredegar. Tynasom sylw at y ffaith bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Adran 55 o'r Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol o newid i'r ffin gymunedol. Gan na chawsom awgrymiadau ar gyfer newid i ffin Cymuned Tredegar, ni wnaethom felly unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau wardiau Cymuned Tredegar yn ystod cam y Cynigion Drafft. Gwnaethom gynnig, fodd bynnag, y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ystyried arolwg o'r wardiau cymuned ar gyfer Gyngor Cymuned Tredegar.

4.13 Ni wnaethom unrhyw gynigion eraill ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymuned eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Mewn ymateb i'n hadroddiad Cynigion Drafft, derbyniasom gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd (gan gynnwys deiseb â 98 enw arni), Cyngor Tref Bryn-mawr a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau, Y Cynghorydd Mark Edwards (Adran Etholiadol Cwmtyleri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent). Gellir gweld crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

6. ASESIAD

Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau

6.1 Yn ein hadroddiad Cynigion Ddrafft, fe wnaethom gynnig newid i'r ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau fel bod anheddiad Bournville i gyd yng Nghymuned Abertyleri. Mewn ymateb i'n hadroddiad Cynigion Ddrafft, derbyniasom wrthwynebiadau i'r cynnig gan Gyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau. Maent o'r farn bod Bournville yn nes at Y Blaenau nag yw i unrhyw fan arall a bod cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau anheddiad. Cytunwyd â'n Cynnig Drafft gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd (gan gynnwys deiseb gan breswylwyr Bournville), Y Cynghorydd Edwards sy'n cynrychioli adran etholiadol Cwmtyleri (sy'n cynnwys ward Cwmtyleri o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd) a Chymdeithas Preswylwyr a Thenantiaid Bournville.

6.2 Ystyriasom yr holl gynrychiolaethau ac rydym yn parhau o'r farn y dylai anheddiad Bournville i gyd gael ei gynnwys mewn un ardal gymuned. Nodwn, er gwaethaf anghytuno ynghylch y canrannau, fod yr holl bartïon yn cytuno bod mwyafrif preswylwyr Bournville yng Nghymuned Abertyleri ar hyn o bryd. Cadarnasom â Chyngor Cymuned Blaenau Gwent mai 157 yw cyfanswm yr etholwyr yn anheddiad Bournville, 98 ohonynt yn Abertyleri a 59 yn Nant-y-glo a'r Blaenau.

Nodasom hefyd y gefnogaeth i'n Cynnig Drafft gan y cyhoedd fel y tystiolaethwyd gan y ddeiseb a'r gynrychiolaeth gan Gymdeithas Preswylwyr a Thenantiaid Bournville. Felly, rydym yn cadw at y farn y dylid cynnwys anheddiad Bournville i gyd yng Nghymuned Abertyleri.

6.3 Nodasom y mân newid a awgrymwyd i'r ffin a gynigiasom yn ein hadroddiad Cynigion Drafft a'i gynnwys yn ardal Bournville, hen iard Ysgol Glanyrafon, nis diffiniwyd yn glir ar fap Arolwg Ordnans. Yn dilyn ymweliad safle i'r ardal, penderfynwyd bod gwahaniaeth clir rhwng yr hen iard ysgol a'r Depo Trosglwyddo Gwastraff. Ystyriwn y byddai'n briodol i newid ein ffin arfaethedig i gynnwys yr hen iard ysgol yng Nghymuned Abertyleri. Rydym o'r farn bod y newid arfaethedig yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 3.

Beaufort

6.4 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, cynigiasom rannu Cymuned bresennol Beaufort yn dair cymuned newydd, sef Cymunedau Badminton, Beaufort a Rassau ar sail yr Adrannau Etholiadol presennol o'r enw ond yn cynnwys rhai mân newidiadau i'r ffiniau. Ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gefnogi'r cynnig gan gytuno â rhai o'r newidiadau i'r ffiniau ond nid oeddynt yn cytuno â'r newid i'r ffin o ran trosglwyddo rhan fechan o Beaufort Rise, Riverside a Lower Square o Beaufort i Badminton. Rydym wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn ac rydym nawr o'r farn y dylai'r ffin yn yr ardal hon aros yr un a ffin yr Adran Etholiadol bresennol. Rydym o'r farn bod rhannu Cymuned bresennol Beaufort i Gymunedau Badminton, Beaufort a Rassau yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly yn cynnig ffurfio Cymunedau **Badminton, Beaufort** a **Rassau** a'u ffiniau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 4 (gan ychwanegu'r mân newid i ffin Badminton fel yr ystyriwyd yn 6.5 isod). Mae map manwl o'r rhwng Badminton a Rassau yn Atodiad 5 a map manwl o'r ffin rhwng Badminton a Chendl yn Atodiad 6.

Beaufort a Bryn-mawr

6.5 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, cynigiasom newid i'r ffin rhwng Cymunedau Beaufort a Bryn-mawr oherwydd materion yn ymwneud â mynediad i un eiddo preswyl. Yr unig gynrychiolaeth a dderbyniasom ynghylch hyn oedd llythyr yn cefnogi'r newid oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Rydym o'r farn o hyd bod y newid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly, yn cadarnhau ein cynnig am newid i'r ffin rhwng Cymuned Beaufort (Cymuned newydd Beaufort fel y'i diffiniwyd yn 6.4 uchod) a Chymuned Bryn-mawr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 7.

Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau

6.6. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, cynigiasom newid i'r ffin rhwng Ward De Bryn-mawr, Cymuned Bryn-mawr a Ward Nant-y-glo o Gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Rydym wedi nodi gwrthwynebiad Cyngor Tref Bryn-mawr i'r cynnig hwn a'u cefnogaeth i'r cynnig gwreiddiol a fyddai'n golygu trosglwyddo Datblygiad Tai Lakeside i Fryn-mawr. Rydym wedi nodi hefyd y gefnogaeth i'n Cynnig Drafft gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau.

6.7 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, ystyriasom gan mai'r unig fynediad i ddatblygiad tai Lakeside oedd drwy Nant-y-glo a'r Blaenau, fod hyn wedi dangos i ni ei bod yn briodol bod yr eiddo wedi'u cynnwys yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, rydym o'r farn o hyd bod y ffin bresennol yn yr ardal hon yn briodol o ran llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynnig i'w newid.

6.8 Yn ein Cynnig Drafft, ystyriwyd y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau i'r dwyrain o ardal Lakeside lle roeddem o'r farn nad oedd y ffin yn yr ardal hon bellach wedi'i diffinio'n glir. Cynigiasom ffin yr oeddem o'r farn ei bod yn briodol o ran ei bod wedi'i diffinio'n glir ac yn cynnwys ardaloedd gyda'i gilydd a oedd yn unffurf. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniasom ynghylch y cynnig hwn rydym o'r farn o hyd y byddai'r newid a gynigiwyd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly, yn cynnig y newid i'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 8. Ni fyddai'r cynnig hwn yn golygu trosglwyddo unrhyw etholwyr.

Glynebwy

6.9 Adeg y cam Cynigion Drafft, cynigiasom ddiddymu Cymuned bresennol Glynebwy a chreu dwy gymuned newydd, sef Cymunedau Gogledd Glynebwy a De Glynebwy i'w seilio ar adrannau etholiadol presennol Gogledd Glynebwy a De Glynebwy ynghyd â dau fân newid i'r ffin. Rydym wedi nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ei gynrychiolaeth wedi cefnogi ein cynnig. Ar ôl ystyried hyn, yr unig gynrychiolaeth a dderbyniasom am y cynnig hwn, rydym yn parhau o'r farn bod y newid rydym yn ei gynnig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly yn cynnig ffurfio **Cymunedau Gogledd Glynebwy** a **De Glynebwy** â'r ffiniau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 9 (ynghyd ag ychwanegu mân newid i ffin De Glynebwy fel yr ystyrir yn 6.10 isod). Ceir map manwl yn dangos y newidiadau i ffin yr adran etholiadol bresennol yn Atodiad 10.

Cwm a Glynebwy

6.10 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, ystyriasom newid i'r ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy (dangosir ar y map yn Atodiad 8). Mynegasom bryderon, fodd bynnag, y byddai'r cynnig yn eithrio eiddo ar Hall Street a'u hunig fynediad oedd o ardal gymuned Cwm. Mewn ymateb, yn ei gynrychiolaeth, cefnogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent y newid ond awgrymodd i ni addasu'r cynnig a chynnwys Hall Street yng Nghwm. Ni dderbyniasom unrhyw gynrychiolaeth arall ynghylch y cynnig hwn. Rydym wedi cynnal ymweliad safle arall â'r ardal ac rydym wedi ystyried newid priodol i'r addasiad i'r ffin a gynigiasom yn ein hadroddiad Cynigion Drafft fel y cynhwysir Hall Street yng Nghymuned Cwm. Mae'r ffin addasedig yn defnyddio llwybrau troed yn yr ardal gan gynnwys llwybr sy'n dilyn y llinell dramiau a ddatgysylltwyd nes iddo gyrraedd y ffin gymunedol bresennol. Rydym o'r farn y byddai newid y ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy fel y'i diwygir nawr yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym felly yn cynnig y newid i'r ffin rhwng Cymunedau Cwm a Glynebwy (De Glynebwy fel y cynigir yn 6.9 uchod) fel y dangosir yn y map yn Atodiad 11.

Ffiniau Wardiau Cymuned Tredegar ac Abertyleri a Llanhiledd

6.11 Nodwn y newidiadau awgrymedig i ffiniau wardiau cymuned yng nghynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae tri o'r newidiadau maent yn eu crybwyll yn ymwneud â ffiniau wardiau cymuned Tredegar (Georgetown, Sirhywi a Central and West). Fel y tynasom sylw at y ffaith yn ein hadroddiad Cynigion Drafft mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Adran 55 o'r Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol o newid i'r ffin gymunedol. Gan na chawsom awgrymiadau ar gyfer newid i ffin Cymuned Tredegar, nid ydym felly yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau wardiau Cymuned Tredegar. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd newid i'r ffin rhwng wardiau Abertyleri a Chwmtyleri yng Nghymuned gynulledig Abertyleri a Llanhiledd. Er ein bod yn cynnig newid i'r ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau sy'n cynnwys ward Cwmtyleri o Gymuned gynulledig Abertyleri a Llanhiledd, mae hon yn ardal sydd dipyn i ffwrdd o'r newid arfaethedig (a ystyriwyd yn 6.1-6.3 uchod). Nid ydym felly o'r farn y gellid ystyried y newid a awgrymwyd i ffiniau Ward cymuned Cwmtyleri ac Abertyleri fel un ôl-ddilynol i'r newid rydym yn ei gynnig i'r ffin Gymunedol rhwng Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau. Fel y mynegasom yn ein hadroddiad Cynigion Drafft (ac eto yn 8.3 isod), nid ydym o'r farn fod angen newid ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd oherwydd y cynnydd bychan yn nifer yr etholwyr yn ward Cymuned Cwmtyleri.

6.12 Mae'n rhaid ystyried y newidiadau a awgrymwyd i Ffiniau Ward Cymuned Tredegar ac Abertyleri a Llanhiledd fel rhan o arolwg o drefniadau etholiadol Cymunedol y gellir eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol ag Adran 57(4) o'r Ddeddf. Rydym yn awgrymu felly i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ystyried arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Tref Tredegar a Chyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd. Gan ein bod ni at gynnal arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent erbyn 30 Mehefin 2011, byddwn yn annog y Cyngor Bwrdeistref Sirol i arolygu eu trefniadau etholiadol cymunedol fel mater brys. Os na fydd yr arolwg wedi'i gwblhau a gwneir Gorchymyn erbyn yr amser y byddwn yn cychwyn ar ein harolwg, yna bydd yn rhaid i ni ddefnyddio'r wardiau cymuned fel y maent bryd hynny pan fyddwn yn ystyried patrwm adrannau etholiadol.

6.13 Ni wnawn unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymuned Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n weddill.

7. CYNIGION

7.1 Wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni, cynigiwn y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Abertyleri, Beaufort, Bryn-mawr, Cwm, Glynebwy a Nant-y-glo a'r Blaenau yn yr ardal dan sylw i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 3, 4, 7, 8, 9 ac 11.

7.2 Gellir archwilio mapiau manwl ar raddfa fwy sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

8.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ôl-ddilynol ar y trefniadau etholiadol i gynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

8.2 Ffurfir Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd drwy gynnwys Cymunedau Abertyleri a Llanhiledd yn un ac mae wedi'i rannu ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol Cymunedol yn wardiau cymunedol Abertyleri, Cwmtyleri, Six Bells, Aber-big a Llanhiledd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Abertyleri	Abertyleri	3,381	5	676
	Cwmtyleri	3,637	5	727
	Six Bells	1,899	3	633
Llanhiledd	Aber-big	1,891	3	630
	Llanhiledd	1,779	3	593
		12,587	**19**	**662**

* Etholwyr fesul cynghorydd

8.3 O dan ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Abertyleri a Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau, byddai cynnydd o 59 yn nifer yr etholwyr yn ward Cwmtyleri, sef cyfanswm o 3,696. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hyn.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Abertyleri	Abertyleri	3,381	5	676
	Cwmtyleri	3,696	5	739
	Six Bells	1,899	3	633
Llanhiledd	Aber-big	1,891	3	630
	Llanhiledd	1,779	3	593
		12,646	**19**	**666**

8.4 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob ward yn y Cyngor Cymuned. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i drefniadau etholiadol Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd.

8.5 Ar hyn o bryd, mae Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau wedi'i rhannu at ddibenion etholiadol Cymunedol, yn wardiau cymuned y Blaenau a Nant-y-glo. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Nant-y-glo a'r Blaenau	Y Blaenau	3,595	8	449
	Nant-y-glo	3,478	8	435
		7,073	**16**	**442**

8.6 O dan ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Abertyleri a Chymuned Nant-y-glo a'r Blaenau, byddai gostyngiad o 59 yn nifer yr etholwyr yn ward y Blaenau, sef cyfanswm o 3,536. Ni chaiff y cynnig ar gyfer y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hyn.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Nant-y-glo a'r Blaenau	Y Blaenau	3,536	8	442
	Nant-y-glo	3,478	8	435
		7,014	**16**	**438**

8.7 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob ward Cyngor Cymuned. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i drefniadau etholiadol Cyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau

8.8 Mae gan Gymuned Beaufort 8,008 o etholwyr ond nid oes ganddi Gyngor Cymuned. O dan ein cynigion am newid i'r ffin rhwng Beaufort a Bryn-mawr, byddai cynnydd o 2 yn nifer yr etholwyr yng Nghendl. Yn ôl ein cynigion ar gyfer Cymuned bresennol Beaufort, bydd tair Cymuned newydd yn cael eu creu: Badminton â 2,561 o etholwyr, Beaufort â 2,942 o etholwyr a Rassau â 2,505 o etholwyr. Gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer y tair ardal gymuned newydd gael cynghorau cymuned nid oes unrhyw gynigion ôl-ddilynol i'w gwneud o ran eu trefniadau etholiadol.

8.9 Ar hyn o bryd, mae Cymuned Bryn-mawr wedi'i rhannu, at ddibenion etholiadol Cymunedol, yn wardiau cymuned Gogledd Bryn-mawr a De Bryn-mawr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	2,066	8	258
	De Bryn-mawr	2,169	8	271
		4,235	**16**	**265**

8.10 O dan ein cynigion ar gyfer y ffin rhwng Cymuned Bryn-mawr a Chendl bydd gostyngiad o 2 yn nifer yr etholwyr yn ward Gogledd Bryn-mawr, sef cyfanswm o 2,064. Ni chaiff y cynnig ar gyfer y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo

a'r Blaenau unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward o ganlyniad i hyn.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	2,064	8	258
	De Bryn-mawr	2,169	8	271
		4,233	**16**	**265**

8.11 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob ward Cyngor Cymuned. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i drefniadau etholiadol Cyngor Tref Bryn-mawr.

8.12 Nid oes gan Gymuned Cwm Gyngor Cymuned ar hyn o bryd ond mae 3,343 o etholwyr yno. O dan ein cynigion, bydd cynnydd o 88 yn nifer yr etholwyr yng Nghwm, sef cyfanswm o 3,431. Gan nad oes gan yr ardal gymuned gyngor cymuned, nid oes unrhyw gynigion ôl-ddilynol i'w gwneud o ran eu trefniadau etholiadol.

8.13 Mae gan Gymuned Glynebwy 6,423 o etholwyr ond nid oes ganddi Gyngor Cymuned ar hyn o bryd. O dan ein cynigion, caiff dwy gymuned newydd eu creu: Gogledd Glynebwy â 3,486 o etholwyr a De Glynebwy â 2,937 o etholwyr. Gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer y ddwy ardal gymuned newydd gael cynghorau cymuned nid oes unrhyw gynigion ôl-ddilynol i'w gwneud o ran eu trefniadau etholiadol.

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

8.14 Mae adran etholiadol Cwmtyleri yn cynnwys ward Cwmtyleri o Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,637 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 o Gynghorwyr. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau yn golygu 59 o etholwyr ychwanegol, a byddai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cwmtyleri yn cynyddu i 3,696.

8.15 Mae adran etholiadol Badminton ar hyn o bryd yn cynnwys y rhan honno o Gymuned Beaufort a ddynodir mewn perthynas â ward dosbarth Badminton yng ngholofn 2 yr Atodlen i Orchymyn Blaenau Gwent (Trefniadau Etholiadol) 1986, ac mae ganddi 2,551 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. O ganlyniad i'r cynnig i rannu Cymuned Beaufort yn dair Cymuned newydd, sef Cymunedau Badminton, Beaufort a Rassau, bydd adran etholiadol Badminton yn cynnwys cymuned Badminton, a fyddai oherwydd y mân newid arfaethedig i'r ffin rhwng Badminton a Rassau yn golygu mai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Badminton fyddai 2,561, yn cael eu cynrychioli gan 2 Gynghorydd.

8.16 Mae adran etholiadol Beaufort ar hyn o bryd yn cynnwys y rhan honno o Gymuned Beaufort a ddynodir mewn perthynas â ward dosbarth Badminton yng ngholofn 2 yr atodlen i orchymyn Blaenau Gwent (Trefniadau Etholiadol) 1986, ac mae ganddi 2,973 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. O ganlyniad i'r cynnig i rannu Cymuned Beaufort yn dair Cymuned newydd, sef Cymunedau Badminton, Beaufort a Rassau, bydd adran etholiadol Beaufort yn cynnwys cymuned Beaufort. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Brynmawr

a Beaufort yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Beaufort yn cynyddu o 2 i 2,942.

8.17 Mae adran etholiadol Rassau ar hyn o bryd yn cynnwys y rhan honno o Gymuned Beaufort nad yw wedi'i chynnwys yn wardiau Badminton a Beaufort, ac mae ganddi 2,484 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. O ganlyniad i'r cynnig i rannu Cymuned Beaufort yn dair Cymuned newydd, sef Cymunedau Badminton, Beaufort a Rassau, bydd adran etholiadol Beaufort yn cynnwys cymuned Rassau, a fyddai oherwydd y mân newid arfaethedig i'r ffin rhwng Badminton a Rassau yn golygu mai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Rassau fyddai 2,505, yn cael eu cynrychioli gan 2 Gynghorydd.

8.18 Mae adran etholiadol Nant-y-glo yn cynnwys Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,478 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 o Gynghorwyr. Ni fyddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Nant-y-glo.

8.19 Mae adran etholiadol Cwm yn cynnwys Cymuned Cwm ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,343 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 o Gynghorwyr. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Glynebwy a Chwm yn golygu 88 o etholwyr ychwanegol, a byddai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cwm yn cynyddu i 3,431.

8.20 Mae adran etholiadol Gogledd Glynebwy ar hyn o bryd yn cynnwys y rhan honno o Gymuned Glynebwy a ddynodir mewn perthynas â ward dosbarth presennol Gogledd Glynebwy yng ngholofn 2 yr Atodlen i Orchymyn Blaenau Gwent (Trefniadau Etholiadol) 1986, ac mae ganddi 3,481 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 3 Gynghorydd. O ganlyniad i'r cynnig i rannu Cymuned Glynebwy yn ddwy Gymuned newydd, sef Cymunedau Gogledd Glynebwy a De Glynebwy, bydd adran etholiadol Gogledd Glynebwy yn cynnwys cymuned Gogledd Glynebwy, a fyddai oherwydd y mân newid arfaethedig i'r ffin rhwng Gogledd Glynebwy a De Glynebwy yn golygu mai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Gogledd Glynebwy fyddai 3,486 yn cael eu cynrychioli gan 3 Gynghorydd.

8.21 Mae adran etholiadol De Glynebwy ar hyn o bryd yn cynnwys y rhan honno o Gymuned Glynebwy nad yw wedi'i chynnwys yn ward Gogledd Glynebwy, ac mae ganddi 2,942 o etholwyr ar hyn o bryd, a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. O ganlyniad i'r cynnig i rannu Cymuned Glynebwy yn ddwy Gymuned newydd, sef Cymunedau Gogledd Glynebwy a De Glynebwy, bydd adran etholiadol De Glynebwy yn cynnwys cymuned De Glynebwy, a fyddai oherwydd y mân newid arfaethedig i'r ffin rhwng Gogledd Glynebwy a De Glynebwy yn golygu mai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol De Glynebwy fyddai 2,937 yn cael eu cynrychioli gan 2 Gynghorydd.

8.22 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol a nodir uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Rydym wedi derbyn cyfarwyddiadau i gwblhau arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer holl brif gynghorau Cymru erbyn 30 Mehefin 2011. Yn fuan, byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

9. CYDNABYDDIAETH

9.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac i'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

10. Y CAMAU NESAF

10.1 Ar ôl cwblhau ein hystyriaeth o'r arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad statudol o dan y Ddeddf.

10.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd nawr yn penderfynu, os y gwêl yn dda, a ddylid rhoi'r argymhellion hyn ar waith gydag addasiadau neu beidio, ac os yw Llywodraeth Cynullid Cymru'n penderfynu rhoi'r argymhellion hyn ar waith gydag addasiadau, gall gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach.

10.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau eraill ynghylch y materion yn yr adroddiad at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid eu gwneud cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Y Tîm Democratiaeth
Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Is-Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Medi 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL)(BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT) 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[1] yr arferir y pwerau hynny bellach gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

Ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er mwyn ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion mewn perthynas â'r ardal a adolygir ag yr awdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf a pha gynigion, os oes rhai, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os gwêl yn dda, lunio'r cynigion hynny yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 31/3/2008

---

(1) 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol(Cymru) 1994.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedyn i Weinidogion Cymru gan Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c.38).

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft

Ysgrifennodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** i gadarnhau ei fod wedi ystyried y cynigion drafft a gwnaeth y sylwadau canlynol:

- Beaufort, Rassau a Badminton – Cytuno â'r mân newidiadau i'r ffin ac y dylent fod yn gymunedau ar ben eu hunain.
- Beaufort / Bryn-mawr – Cytuno â throsglwyddo Amberleigh House o Fryn-mawr i Beaufort.
- Beaufort / Badminton – Yn anghytuno â'r newidiadau i'r ffin o ran trosglwyddo rhan fechan o Beaufort Rise, Riverside a Lower Square o Beaufort a Badminton a bod yr ardaloedd hynny yn aros yng Nghendl. Derbynnir y newidiadau eraill i'r ffin. Cynigir cadw'r ffin bresennol ar gyfer yr ardal.
- Cwm a De Glynebwy – Cytuno â'r ffordd A4046 fel y ffin a chynnwys Hall Street yng nghymuned Cwm.
- Cymuned Glynebwy – Cytuno â diddymu cymuned Glynebwy a chreu dwy gymuned newydd sef Gogledd Glynebwy a De Glynebwy.
- Tredegar Central and West a Sirhywi – Cytuno â'r anomaledd sy'n trosglwyddo nifer o eiddo yn Brynmeadow Close / Lakeside o ward Central and West i ward Sirhywi.
- Abertyleri/Cwmtyleri – Trosglwyddo Parc Abertyleri ac un fferm o ward Cwmtyleri i ward Abertyleri.
- Bryn-mawr a Nant-y-glo – Cytuno â'r cynnig i newid y ffin rhwng cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo, trosglwyddo Ystad Ddiwydiannol Blaenant i Nant-y-glo a'r Depo Bysiau i Fryn-mawr.
- Bournville - Cytuno â chynnwys Griffin Terrace, Glanyrafon Terrace a'r Tylers Arms yn yr un ardal, yn ogystal, dylai ardal honno i gyd fod yn ward Cwmtyleri.
- Tredegar, Vale Terrace a Pochin Terrace – Gan fod barnau gwahanol am yr ardal hon, roedd y Cyngor o'r farn y dylid ymgynghori â'r preswylwyr er mwyn gweld pa ward y byddai'n well ganddynt hwy fod ynddi.
- Cytunwyd hefyd bod anomaledd yn y ffin rhwng ward Sirhywi a ward Georgetown o ran tai yn Hartford Gardens, Tredegar. Dylid newid y ffin i adlewyrchu hyn. Byddai'n cynnwys 18 eiddo a 33 o etholwyr.

Cynghorodd **Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd** y Comisiwn ei fod yn cytuno â'r argymhelliad i drosglwyddo yr 20% o Bournville sy'n weddill (yn Nant-y-glo a'r Blaenau ar hyn o bryd) i ward Cwmtyleri. Byddai pentref wedyn wedi'i uno mewn un ardal etholiadol yn unol â dymuniadau'r preswylwyr. Mae cynrychiolwyr Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd cymunedol yng Nghwmtyleri ac maent yn ystyried eu hunain yn rhan o ward Cwmtyleri. Mewn cyfarfod diweddar, roedd yn ddymuniad unfrydol preswylwyr lleol i ddod yn rhan o ward Cwmtyleri yng Nghymuned Abertyleri a Llanhiledd. Roedd cais ychwanegol i gynnwys hen iard Ysgol Glanyrafon yn ailaliniad y ffin. Mae hwn yn bwynt pwysig gan yr ystyrir yn lleol bod y safle yn rhan o Glanyrafon Terrace, â mynediad.

Anfonodd y Cyngor Cymuned ddeiseb gan breswylwyr Bournville yn cynnwys 98 o enwau a ddatganodd:

Rydym ni, y rhai sydd wedi arwyddo isod - yn breswylwyr Pentref Bournville - o farn gadarn iawn y dylem ni fod yn un gymuned, ac nid wedi'n rhannu rhwng Abertyleri a'r Blaenau - fel y mae ar hyn o bryd.

Ein dymuniad yw bod yn rhan o Abertyleri ac yn Ward Etholiadol Cwmtyleri

Dywedodd **Cyngor Tref Bryn-mawr** mai dadl y Cyngor dro ar ôl tro yw y byddai'n gwneud fwy o synnwyr pe bai'r ffin rhwng Nant-y-glo a Bryn-mawr yn mynd o gylchfan ffordd osgoi A467 Blaina Road mewn cyfeiriad gorllewinol ar hyd Waun Pond Embankment Road h.y. Pond Road tuag at Winchestown. Ar y gyffordd â Golf Road dylai'r ffin fynd i'r dde (yn fras i gyfeiriad gogledd orllewin) nes cyrraedd y llinell nis mabwysiadwyd sy'n ei chysylltu â llwybr yr ochr orllewinol sy'n ymylu'r "Machine Pond" a fydd yn y pen draw yn cysylltu â Ffin Gymunedol Beaufort. Byddai'r ardaloedd i'r gogledd a'r dwyrain o'r llwybr newydd arfaethedig hwn yna'n rhan o gymuned Bryn-mawr. Mae hyn hefyd yn unol â barn y Comisiwn ei hun, sef "ei bod yn ddymunol…i wneud newidiadau i'r ffin gymunedol er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn nodweddion daearyddol sydd wedi'u diffinio'n glir" (Paragraff 4.8 o'r Adroddiad Cynigion Drafft).

Dymuna'r Cyngor ailadrodd bod cysylltiadau daearyddol, unffurf yn perthyn i'r cynnig hwn yn ogystal â chysylltiadau hanesyddol. Y Waun Pond yw'r enw ar y "Lake/Pond". Mae hyn gysylltiedig â'r enw mwy hanesyddol am Fryn-mawr sef Waun Helygen a'r ymadrodd lleol yn y gorffennol gan drigolion Nant-y-glo, sef eu bod yn "mynd i fyny i'r Waun" h.y. i Fryn-mawr.
Heblaw hyn, mae holl ddeiliaid Datblygiad Masnachol Lakeside yn mynnu bod eu busnesau ym Mryn-mawr. Dyma mai preswylwyr Datblygiad Tai Lakeside yn eu honni, sef eu bod hwythau hefyd yn byw ym Mryn-mawr.

Ânt ymlaen i ddweud bod cyflwyniad Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau yn cynnwys rhai dadleuon llygad-dynnol. Mae'n gwbl ar ddamwain bod Datblygiad Tai Lakeside yn Nant-y-glo. Ffwlbri llwyr yw sôn am "Dreth Gymuned" a delir i Gyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau ar hyn o bryd yn cael ei drosglwyddo i dref fwy llewyrchus Bryn-mawr gan fod unrhyw Dreth Gymuned yn cael ei thalu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac nid i Gynghorau Tref/ Cymuned unigol. Mae'n gwbl afresymol bod y ffin bresennol rhwng Bryn-mawr a Nant-y-glo yn cyrraedd o fewn 50 llath o Brif Sgwâr Brynmawr. Mae cynigion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i Chyn-asiantaeth, y WDA, yn rhagweld dymchwel y ffatri NMC bresennol ac ail-leoli Depo Stagecoach a chreu cyswllt cerddwyr agored rhwng y Datblygiad Masnachol a Chanol Tref Bryn-mawr.

Mae'n ddirgelwch i'r Cyngor o ran trosglwyddo Ystad Ddiwydiannol Blaenant i Nant-y-glo a'r Blaenau gan fod y safle wedi bod ym Mryn-mawr ers ei sefydlu yn y 70au / 80au. Mae'r Cyngor am gadw'r Ystad fel rhan o Fryn-mawr. Mae'n cadw at ei gynigion gwreiddiol i newid y ffin.

Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau Roedd aelodau wedi'u synnu braidd gan gynnig Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gynnal refferendwm er mwyn penderfynu lleoliad Ffin Gymuned y Blaenau / Cwmtyleri. Nid yw'r Cyngor Tref yn ymwybodol o'r ffin hon erioed wedi bod yn destun dadl neu anghydfod. Synnwyd aelodau yn bellach gan honiad Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd bod 80% o'r pentref yng Nghwmtyleri, a byddent yn herio hynny.

- Dangosodd cyfrif o'r anheddau bod 31 ohonynt yn y Blaenau a 54 yng Nghwmtyleri; tra bod

- Cyfrif o etholwyr yn dangos bod 59 yn preswylio yn y Blaenau a 98 yng Nghwmtyleri.

Er bod y mwyafrif yn ôl y ddwy enghraifft yng Nghwmtyleri, ni ellir cyfiawnhau'r ffigur honedig o 80%. Ystyria Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau bod Bournville "lle y mae" h.y. yn nes i'r Blaenau nag yw i unman arall. Mae'r Cyngor Tref yn estyn gwahoddiad gwresog i'r Comisiwn Ffiniau ailystyried y Cynnig Drafft o ran

- Datblygiad hirgul ar hyd yr hen ffordd A467.
- Ardal llain las wedi'i lleoli i'r de o Bournville.

Mae'r ardal llain las yn ymestyn rhyw 300 metr i Ystad Dai Arreal View ac yn darparu'r unig ffin naturiol rhwng y Blaenau a Chwmtyleri.

Amgaewyd copi o'r ardal a nodwyd arno y ffin gymunedol bresennol a newidiadau awgrymedig Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau mewn coch, h.y. bod y ffin arfaethedig yn gadael afon Ebbw Fach i ymuno â ffordd ymuno a gadael yr A467 tua Bournville. Mae'r ffin arfaethedig yn parhau i gyfeiriad dwyreiniol nes ymuno â llwybr troed Rhif 33 1 *I64* ac o'r fan honno gall y ffin arfaethedig droi i'r gogledd i ailymuno a'r ffin ward bresennol.

Pe mabwysiedir y cynnig uchod, byddai Bournville i gyd, sydd â chysylltiad hanesyddol hirsefydlog â Nant-y-glo a'r Blaenau o fewn milltir o Stryd Fawr y Blaenau ac yn ardal Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau. Yn wir mae tri chyn-aelod o'r Cyngor Tref yn parhau i fyw yn Bournville.

Yn ogystal, roedd gan y Cyngor y sylwadau canlynol i'w gwneud ynghylch cynnig Bryn-mawr / Nant-y-glo:
Croesawodd aelodau'n wresog y Cynnig Drafft ar gyfer Ffin Gymunedol Nant-y-glo / Bryn-mawr. Roedd yr aelodau o'r farn bod y Cynnig Drafft yn gynrychiadol o'r etholaeth bresennol a'i fod yn darparu eglurder pwrpas sy'n unol â thopograffeg yr ardal.

Nododd aelodau'r cyfeiriad gan Gyngor Tref Bryn-mawr ynghylch 'mynd i fyny i'r Waun' i ddangos bod preswylwyr Nant-y-glo yn defnyddio'r ymadrodd hwnnw wrth deithio i Fryn-mawr. Mae disgrifio'r ymadrodd 'mynd i fyny i'r Waun' fel cyfeiriad at Fryn-mawr yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw pan oedd plant yn mynd i chwarae neu fod y teulu yn treulio diwrnod allan o Nant-y-glo roedd yn gyffredin iddynt fynd o ardal ddiwydiannol orboblog Nant-y-glo i'r llain o dir o amgylch llyn y Waun.

Mae'r Cynnig Ffin Gymunedol drafft yn adlewyrchiad o'r Ffin Sirol rhwng Sir Fynwy a Sir Frycheiniog cyn 1974. Gwnaethant amgáu copi o fap o'r lleoliad cyn 1974 a gafwyd o Swyddfa Cofnodion Sirol Gwent sy'n dangos yn glir bod Llyn y Waun yn Nant-y-glo, Sir Fynwy.

Ysgrifennodd **Y Cynghorydd Mark Edwards** o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent â sylw ynghylch y newid ffin arfaethedig i Bournville. Datganodd fod y llinell werdd yn nodi'r ffin newydd arfaethedig yn Glanyrafon Terrace yn anghywir gan nad oes unrhyw adnabyddiaeth o'r hen safle ysgol. Ymddengys ei fod wedi'i 'golli' a bod yr iard wastraff yn llechfeddiannu arno. Gofynnodd i'r Comisiwn arolygu a diwygio hyn er mwyn adlewyrchu'r tir fel y mae ar hyn o bryd.

Roedd **Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Bournville** wedi trafod y Cynigion Drafft ar gyfer Bournville a'u hunig bryder oedd, nad oedd 'Hen Iard Ysgol Glanyrafon' (a nodwyd yn anghywir fel iard wastraff ar gynllun y Comisiwn) wedi'i chynnwys yn yr

ailaliniad o'r ffin. Mae preswylwyr wedi datgan yr hoffent i'r ardal sy'n barhad â Glanyrafon Terrace gael ei chynnwys yn ward Cwmtyleri.